

SAFLE TRAWSFYNYDD
COFNODION DEUNAWFED CYFARFOD Y GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE
A GYNHALIWDYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO
DDYDD LLUN 10 RHAGFYR 2012

PRESENNOL

Y Cyng J Isgoed Williams Cadeirydd

Safle Trawsfynydd

Mr Dave R Wilson	Cyfarwyddwr Safle Magnox
Mr Ian Edwards	Magnox
Mr Rory Trappe	Magnox
Mr R J Phillips	Magnox
Mr R Parry	Magnox
Mr Bryan Walley	Magnox
Mr P Richardson	Magnox
Mr Andy McAteer	Magnox
Mr B Halsey	Magnox
Mr J E Owen	Magnox
Mr Mark Chevis	Magnox
Mr Richard Cowell	Magnox
Ms Christina Black	Magnox
Mr Julian Peachey	Magnox

Horizon

Mr Richard Foxhall

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Mr D Edwards

Cyngor Gwynedd

Y Cyng Thomas Ellis
Mrs Shirley Hughes
Mr Alun Evans
Ms Nia Swann Bowden

Cynghorau Tref a Chymuned

Y Cyng Dafydd Watts	Cyngor Cymuned Llanfrothen
Y Cyng John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Y Cyng D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Idwal Williams	Traws-Newid
Dr Iolo ap Gwynn	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Aled Sturkey	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Arsyllwyr

Mr Chris Kemp	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Mr E Jones	Undeb Amaethwyr Cymru
Mr Alan Hall	Dŵr Cymru
Ms Gemma Roberts	Dŵr Cymru
Mrs Megan Jones	Cyfieithu
Miss Elen Williams	Cofnodion

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyng Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd
Y Cyng Paul Thomas	Cyngor Gwynedd
Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas	Aelod Cynulliad
Ms Michelle Humphreys	Magnox
Mr Jonathan Jenkin	NDA
Ms Gillian Thomas	NDA
Mr Keith O'Brien	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ms Sonia Thompson	Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Mrs Gwen Pettifor	Sefydliad y Merched
Mr Elfyn Llwyd	Aelod Seneddol
Mr Terry Williams	Cwmni Seren Ffestiniog Cyf

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Yn dilyn y cais yn y cyfarfod blaenorol, pwysleisiodd fod y cofnodion wedi cael eu darparu'n gynt y tro yma, fel fersiwn ddrafft.

2. Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2012

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo a'u derbyn yn gofnod cywir, yn amodol ar y cywiriadau canlynol:

- 2.1 Dywedodd y Cyng Meredydd Williams mai Dr Iolo ap Gwynn oedd wedi gofyn cwestiwn 3.1.
- 2.2 Cyfeiriodd Mr Mark Chevis at bwynt 2.3, gan ddweud y byddai'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn dal i fodoli ond mai eu cynrychiolaeth ar y Grŵp Rhanddeiliaid Safle fyddai'n dod i ben. Eglurodd wybodaeth yng nghyswllt y broses gystadleuaeth ym mhwynt 4.4. hefyd.
- 2.3 Gofynnodd y Cyng Dafydd Watts am fwy o eglurder ynghylch 'pa mor lân yw glân' ym mhwynt 5.16, ac atebodd y Cadeirydd a Mr D Wilson y byddai modd rhoi sylw i hyn yn nes ymlaen yn Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle.

Ar ôl trafod y materion hyn, cymeradwywyd a derbyniwyd y cofnodion.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2012

- 3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyn gofnodion.

4. Cyfarchiad y Cadeirydd

- 4.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Safle Cenedlaethol ym Manceinion, lle'r oedd y broses dendro a fydd yn digwydd yng nghyswllt datgomisiynu wedi cael ei thrafod.



- 4.2 Croesawodd y Cadeirydd Mr David Edwards (Awdurdod Datgomisiynu Niwclear), Nia Swann Bowden (Rheolwr Parth Menter Eryri), a Mr Mark Chevis (Swyddog Cyfathrebu ar gyfer Trawsfynydd a Wylfa) i'r cyfarfod.
 - 4.3 Eglurodd y byddai Mr Dave Wilson yn ymdrin ag eitem 10, ond fod Christina yn bresennol ac ar gael i ateb unrhyw gwestiynau. Dywedodd hefyd y byddai eitem 11 yn symud, gan ddod yn syth ar ôl eitem 5 ar yr Agenda, gan fod Mr Richard Foxhall angen gadael yn gynt oherwydd ymrwymadau eraill.
 - 4.4 Soniodd y Cadeirydd fod Mr Idwal Williams, yr Is-gadeirydd, wedi bod yn Llundain yn ei gynrychioli. Diolchodd iddo am hyn a gwahoddwyd Mr Idwal Williams i ychwanegu unrhyw sylwadau.
 - 4.5 Cadarnhaodd Mr Idwal Williams fod bwriad i gysylltu â'r rhanddeiliaid ynglŷn â'r cynlluniau storio gwastraff. Ym Manceinion, soniwyd am y posibiladau ac roedd yn ymddangos y byddai datblygiadau ac y byddai mwy o drafodaethau'n cael eu cynnal yn y dyfodol. Roedd Traws wedi cael canmoliaeth uchel am ei waith, ac wedi derbyn gwobrau gan RoSPA a chan Personnel Today am waith ym maes ymdrin â gweithwyr. Roedd wedi bod mewn cyfarfodydd ynglŷn â'r bid ym Manceinion, ac roedd pump o gwmnïau wedi mynd ymlaen. Disgwylir cyhoeddiad ddiwedd y mis.
5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle
- 5.1 Rhoddodd Mr Dave R Wilson, Cyfarwyddwr y Safle, gyflwyniad ynghylch cyrraedd cyflwr Gofal a Chynnal priodol erbyn mis Rhagfyr 2016.
 - 5.2 O ran diogelwch, roedd 744 diwrnod wedi mynd heibio ers y digwyddiad diwethaf lle'r oedd amser gwaith wedi'i golli. Ni chafwyd yr un digwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
 - 5.3 Rhoddwyd amlinelliad o'r amserlen ar gyfer y Rhaglen:
Cyrraedd y Cyfnod Gofal a Chynnal – Rhagfyr 2016
Cyfnod Gostwng Uchder – 2020 i 2026
Cyfnod Clirio'r Safle'n Derfynol – 2076 i 2085.
 - 5.4 Dyma'r ffigurau ariannol ar gyfer 2012/13:
Gwerth Gwaith ar y Llinell Sylfaen – Oddeutu £79.8m
Gwerth Gwaith a Wnaed Hyd yn Hyn (Perfformiad yn erbyn y Llinell Sylfaen) – £49.6m
Cost Wirioneddol Hyd yn Hyn – £50.6m
 - 5.5 Roedd llawer o waith wedi cael ei wneud ar y Storfeydd Diogel, ac roedd yr abseilwyr wedi bod yn brysur iawn yn gwneud gwaith atgyweirio.
 - 5.6 Roedd y gwaith atgyfnerthu yn dal i fynd yn ei flaen. Roedd cryn dipyn o waith sgaffaldiau wedi bod yn mynd rhagddo, a llawer o waith i atgyfnerthu'r strwythur. Roedd sgaffaldiau wedi cael eu gosod a gwaith yn cael ei wneud i newid y cymalau ac atgyweirio.
 - 5.7 Roedd gwaith wedi cael ei gyflawni i wneud yn siŵr bod cynwysyddion gwasgedd yr adweithyddion yn iawn, gan gynnal archwiliadau â camera i asesu eu cyflwr.
 - 5.8 O ran y ffrydiau gwastraff, rydym yn cyrraedd sefyllfa lle bydd y resinau'n cael eu rhoi mewn casgenni.
 - 5.9 Roedd craeniau newydd sbon wedi cael eu gosod dros y 6 mis diwethaf, ac roedd y rhain wrthi'n cael eu profi.
 - 5.10 Mae gwaith yn cael ei wneud i adfer Malurion Rhodenni Tanwydd (FEDs) ac roedd llawer o gynnydd ffisegol da i'w weld.
 - 5.11 Mae'r gwaith Adfer Resinau Swmp o Ddaeargell Resinau 2 (RV2) wedi cael ei gwblhau ac roedd y gwaith o Adfer Resinau Gweddilliol o Ddaeargell Resinau 1 yn mynd rhagddo.



- 5.12 O ran PNV (Ponds North Void), roedd braich robotaid yn cael ei defnyddio i fynd drwy'r slwtch ac adfer deunyddiau solid er mwyn eu trosglwyddo a'u storio.
- 5.13 O safbwynt Datgomisiynu'r Pyllau, roedd y gwaith sgablo wedi parhau. O ran pa mor lân yw glân, roeddent wedi bod yn mynd drwy'r pyllau mwyaf ymbelydrol ac yn cymryd samplau i'w dadansoddi er mwyn gweld beth yw lefel yr ymbelydredd.
- 5.14 Roedd trefniadau newydd wedi cael eu rhoi ar waith yng nghyswllt Gwaredu Gwastraff Lefel Isel iawn. Mae hwn yn ddeunydd swmp sydd ond ychydig yn ymbelydrol, ac eglurodd Mr D Wilson y ceir cwmnïau sy'n fodlon derbyn gwastraff lefel isel iawn. Roedd 746 o ddrymiau wedi cael eu gwaredu hyd yma, a'r llwyth cyntaf wedi mynd ar 18 Medi 2012. Bwriedir cludo 8 llwyth arall ymaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 5.15 O ran y Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd, mae 73 o becynnau Gwastraff Lefel Ganolradd (ILW) wedi'u storio (20 eleni) ac mae drymiau 1803 yn cael eu storio dros dro cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd. Fe fydd yna oddeutu 2000 o ddrymiau i gyd yn ystod y cyfnod Gofal a Chynnal.
- 5.16 Rhoddodd Mr D Wilson y wybodaeth ddiweddaraf am Ansawdd Tir. Aelodau'r tîm yn Nhrawsfynydd yw Christina Black (Arweinydd y Prosiect), Kevin Davis (Rheolwr Ansawdd Tir), Oscar Hathaway (Rheolwr Strategaeth Ansawdd Tir – Gofal a Chynnal), a Pete Longley (Arweinydd Technegol).
- 5.17 Eglurodd mai nod Tîm Ansawdd Tir Trawsfynydd oedd rheoli'r effaith y mae gwaith ar y safle yn ei chael ar ansawdd y tir ac ar y cyrsiau dŵr. Y nod yw sicrhau a dangos bod ansawdd y tir ar safle Trawsfynydd yn foddhaol.
- 5.18 Mae'n rhaid monitro ansawdd tir yn barhaus. Mae 59 o dyllau turio ar y safle. Mae 38 o'r rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd ac wedi bod yno ers dros 10 mlynedd. Darperir manylion llawn am yr holl waith dadansoddi a gynhelir i'r rheoleiddwyr (Asiantaeth yr Amgylchedd, Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear).
- 5.19 Ar hyn o bryd, mae ymarfer modelu dŵr daear 3D yn cael ei gynnal yn Nhrawsfynydd, ac mae gwaith i fonitro a chymryd samplau o'r tyllau turio yn cael ei wneud yn barhaus. Y brif nod yw paratoi ar gyfer y Cyfnod Gofal a Chynnal, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd gwaith monitro parhaus yn cael ei gynnal i sicrhau bod amcanion ansawdd tir yn cael eu cyflawni.
- 5.20 O ran materion Economaidd-Gymdeithasol, dyma'r ffigurau cyflogaeth:
- | | |
|---------------------|-----|
| Cyfanswm Cyflogaeth | 894 |
| Staff | 210 |
| Asiantaeth/CSW | 157 |
| Contractwyr | 527 |
- (Nid yw pob contractwr yn gweithio'n llawn amser ar y safle ac mae nifer y contractwyr yn newid wrth i brosiectau gychwyn a dod i ben)
- 5.21 Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref yn cynnwys y digwyddiad Maths@Traws, Cwis Ysgolion Blynyddol Safle Trawsfynydd a digwyddiad 'Byd Gwaith' Gyrfa Cymru. Roedd tri phrentis o Goleg Menai ar y safle ac roedd tri o raddedigion wedi dechrau ar leoliadau tymor byr ar y safle. Roedd y Pwyllgor Codi Arian i Elusennau wedi codi dros £10,000 ar gyfer achosion lleol ers iddo gael ei ffurfio yn 2008.
- 5.22 Ers mis Mehefin, roedd BBC Cymru, S4C ac ITV Wales wedi ymweld â'r safle, yn ogystal â Hywel Williams AS (Arfon), y Gyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD), yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol, KEPCO o Dde Korea, ynghyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle, a ddaeth i gael taith o amgylch y safle fel rhan o ymweliad anffurfiol. Yn ogystal â hyn, byddai oriel y 'Tate' yn dod i ffilmio ar 17 a 18 Rhagfyr, gan eu bod wedi dangos diddordeb yn y strwythur.



5.23 I grynhoi, roedd perfformiad o safbwynt diogelwch a'r amgylchedd wedi bod yn dda, roedd prosiectau mawr yn datblygu'n dda, ac roedd ymrwymiad parhaus gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

5.24 Cwestiynau

- a. Y Cyng Meredydd Williams – Beth yw'r sefyllfa o ran y posibilrwydd o ddod â gwastraff i Traws? Ai lle'r NDA fyddai dod at y Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn hyn o beth?

Atebodd Mr Dave Wilson bod trafodaethau wedi cael eu cynnal ar y mater hwn ar lefel eithaf uchel, hynny yw, a fyddai modd dod â Gwastraff Lefel Ganolradd o Wylfa i Traws er enghraifft. Fodd bynnag, dywedodd nad oes llawer o le gwag dros ben. Ar gyfer gwastraff o Drawsfynydd y mae'r caniatâd cynllunio ar hyn o bryd, a byddai angen i unrhyw newidiadau fynd drwy brosesau penodol gan fod cymalau cynllunio arbennig yn gysylltiedig â hyn. O ran Magnox, pe byddai penderfyniad i newid y cynlluniau byddai'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn cael gwybod am hynny. Dywedodd Mr D Edwards o'r NDA bod yr NDA wedi gofyn i Magnox edrych ar storio Gwastraff Lefel Ganolradd ac y bydd proses ar gyfer rhanddeiliaid i ddilyn. Dywedodd fod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hollbwysig.

Ategodd y Cadeirydd fod cymal cynllunio yn berthnasol. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal, gan edrych ar y posibilrwydd o un storfa Gwastraff Lefel Ganolradd ar gyfer dau safle, ond nid oedd penderfyniad wedi cael ei wneud.

Ychwanegodd Mr Dave Wilson mai'r nod o ran gwastraff oedd cael gwared arno ac nid dod ag ef i mewn.

- b. Y Cyng John Richards – A fydd y samplau o'r pyllau yn effeithio ar y cyfnod gofal a chynnal?

Cyfeiriodd Mr Dave Wilson at y gwaith sgablo ac mai'r prif fater yw'r cymalau. Mae'n fater o weld faint ddylai rhywun sgablo drwy ddraeniau, a phryd mae stopio, gan nad oes arnoch chi eisiau dal ati i sgablo a dod allan y pen arall. Wrth i waith fynd rhagddo a symud ymlaen, y gobaith yw cael gwell dealltwriaeth, ond mae'n mynd i fod yn benderfyniad allweddol.

- c. Y Cyng John Richards – Oes yna unrhyw ganlyniadau wedi dod o'r samplau sydd eisoes wedi'u cymryd?

Eglurodd Mr Dave Wilson fod angen edrych ar yr opsiynau ar gyfer y camau nesaf. Y cwestiwn yw beth i'w wneud gyda data a chreu opsiynau, ond mae'n fater allweddol ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

6. Adroddiad Ffisegwr Iechyd y Safle – Mr Bryan Halsey

Dywedodd Mr Bryan Halsey fod adroddiad llawn wedi cael ei ddarparu. Nododd fod popeth i weld yn gostwng, ond tynnodd sylw at y graff ar dudalen 14 sy'n dangos cynnydd bach yn y lefelau Dogn i Enweirwyr, a oedd wedi gweld gostyngiad yn 2010 ond wedi cynyddu yn 2011.

7. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng – Mr Robin Phillips

7.1 Nid yw Trefniadau Argyfwng y Safle wedi newid yn sylweddol ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Nid yw Trefniadau Argyfwng y Safle wedi cael eu rhoi ar waith ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

7.2 O ran Staff y Cynllun Argyfwng, roedd tri unigolyn wedi gwneud cais i adael y cynllun, a phenderfynwyd hysbysebu'n fewnol am aelodau yn eu lle. Cafwyd cryn ddi-ddordeb ar draws y safle, ac roedd tri aelod o staff yn derbyn hyfforddiant i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn. Roedd aelodau presennol y cynllun yn llenwi'r bylchau yn y rota wrth i'r hyfforddiant hwn gael ei gynnal.

- 7.3 O safbwynt hyfforddiant, roedd y tri gwasanaeth argyfwng wedi parhau i gefnogi ymarferion a hyfforddiant i staff dros y chwe mis diwethaf. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cymryd rhan lawn mewn dau ymarfer argyfwng dros yr haf a chafwyd adborth cadarnhaol ganddynt.
- 7.4 Ym mis Gorffennaf, roedd yr ymarfer arddangos argyfwng blynyddol wedi cael ei gynnal. Roedd hwn yn ymarfer y tu allan i oriau arferol, a gynhaliwyd o flaen y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, a bu'n llwyddiannus. Mae yna wastad bwyntiau i'w dysgu o unrhyw ymarfer, a byddwn yn ymgorffori'r rhain mewn ymarferion a hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.
- 7.5 Roedd y rhaglen ymarfer shifftiau ar gyfer 2012/13 wedi dechrau, a bydd yn parhau yn y Flwyddyn Newydd. Bydd yr ymarfer arddangos nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2013.
8. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Chris Kemp
- 8.1 Ymddiheurodd Chris Kemp nad oedd wedi bod yn bresennol i roi adroddiad yn y cyfarfod fis Mehefin.
- 8.2 Cyfeiriodd at yr ymarfer arddangos blynyddol a gynhaliwyd fin nos er mwyn galluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i fod yn bresennol. Roedd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r tri safle ac wedi dysgu gan bob un ohonynt.
- 8.3 Roedd wedi archwilio'r pecynnau a oedd yn mynd i'w storio ac wedi dod i'r casgliad fod pob un ohonynt mewn cyflwr da, yn enwedig gan ystyried eu hoed.
9. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd – Steve Howard
- 9.1 Eglurodd Mr Steve Howard fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn brif Reoleiddiwr ar gyfer Traws a Wylfa, ac ar gyfer yr adeilad newydd yn Wylfa.
- 9.2 Eglurodd ei fod yn ymweld â'r safle unwaith y mis, drwy drefniant fel arfer ond weithiau ar fyr rybudd, a'i fod yn hoffi gweld beth oedd yn digwydd a gweld unigolion wrth eu gwaith.
- 9.3 Roedd y tip asbestos wedi bod o ddiddordeb iddo, ac roedd hwnnw'n foddhaol iawn ar hyn o bryd.
- 9.4 Eglurodd ei fod, fel rhan o'i waith, yn cyflawni archwiliadau cyffredinol ar wybodaeth y mae'n rhaid i'r safleoedd ei darparu i'r Asiantaeth.
- 9.5 Roedd yn fodlon iawn â'r trefniadau o ran amddiffyn rhag y tywydd. Roedd wedi edrych ar y draeniau hefyd ac yn hynod falch bod arolwg wedi cael ei gynnal o'r draeniau.
- 9.6 Roedd hefyd yn falch bod Traws wedi cyflwyno trefniadau ar gyfer Gwastraff Lefel Isel lawn, ac yn fodlon â chydymffurfiaid y safle.
- 9.7 Roedd y rhyngweithio wedi ei blesio hefyd. Dywedodd ei fod wedi cael gwybodaeth yn ddidrafferth a bod yr archwiliadau dirybudd wedi bod yn ôl y disgwyl.
- 9.8 Mynegodd y Cadeirydd ei fod yn falch o glywed adroddiad mor ddisglair.
- 9.9 Cwestiynau
- a. Holodd y Cyng Tom Ellis am y cyfeiriad at asbestos a gofynnodd lle'r oedd yn cael ei storio – ai y tu mewn neu yn yr awyr agored?
Esboniodd Mr Steve Howard ei fod mewn safle tirlenwi a awdurdodwyd ddegawdau'n ôl. Roedd yr asbestos wedi cael ei gladdu felly nid oedd unrhyw bosibilrwydd y byddai'n cael ei chwythu i ffwrdd. Ei brif bryder oedd y coed, rhag ofn iddynt ddisgyn ac effeithio ar y tir.
- b. Holodd y Cyng Tom Ellis a oedd y safle'n debygol o gael ei glirio allan yn y dyfodol. Atebodd Mr Steve Howard nad oedd hyn wedi'i gynllunio ac nad oedd bwriad o wneud hynny.

- c. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd diogelu'r safle er mwyn sicrhau na fyddai neb yn mynd yno i dyrchu ac yn y blaen. Atebodd Mr Steve Howard y byddai'n bosib gosod haen ar y safle i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod amdano.

10. Cyflwyniad ar Ansawdd Tir Safle Trawsfynydd – Christina Black
Ymdriniwyd â'r eitem hon yn adroddiad Cyfarwyddwr y Safle.

11. Diweddariad ar sefyllfa Cwmni Pŵer Niwclear Horizon a chynlluniau ar gyfer gorsaf bŵer newydd ar safle Wylfa – Richard Foxhall, Rheolau Cysylltiadau Rhanddeiliaid

- 11.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Richard Foxhall i sôn am y newyddion da ynghylch Wylfa.
- 11.2 Roedd yn bleser gan Mr Richard Foxhall rannu'r newyddion bod Hitachi wedi prynu Horizon, ac mai'r bwriad yw adeiladu gorsaf bŵer newydd. Mae Hitachi wedi dweud eu bod yn mynd i osod 2 neu 3 adweithydd ar y safle, gan ddibynnu ar faint o le sydd ar gael. Roedd 100 aelod o staff yno o hyd ac roedd perthynas dda iawn gyda'r rheoleiddiwr. Pwysleisiodd fod gwerth dros 3 blynedd o ddata hanfodol i ddysgu ohono.
- 11.3 Ffurfiwyd Horizon ym mis Ionawr 2009 fel menter ar y cyd rhwng E.ON UK ac RWE npower. Ar 29 Mawrth 2012, cyhoeddodd E.ON a RWE eu bod yn bwriadu gadael rhaglen niwclear y DU a rhoddwyd Horizon ar werth yn sgil hynny. Ar 30 Hydref 2012, cyhoeddodd Hitachi ei fod am brynu Horizon, ac ar 23 Tachwedd, cafodd yr arian ei drosglwyddo gan Hitachi er mwyn sicrhau'r pryniant.
- 11.4 Horizon fydd datblygwr y safle, a bydd yn gyfrifol hefyd am sicrhau trwydded a chaniatâd datblygu ar gyfer y safle.
- 11.5 Mae Hitachi wedi llofnodi Memorandwm Cymdeithasu gyda Rolls Royce a Babcock.
- 11.6 Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwn yn ceisio deall sut byddwn yn mynd ati. Nid oes llawer o amserlenni ar hyn o bryd ond bydd mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.
- 11.7 Y nod yw sicrhau bod yr uned gyntaf ar waith erbyn chwarter cyntaf degawd 2020.
- 11.8 O ran technoleg, bydd Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR) yn cael ei ddefnyddio yn Wylfa ac yn Oldbury, a mynegodd Mr Richard Foxhall fod pawb ar dân i gael gwybod sut mae'r dechnoleg yn gweithio. Hwn yw'r unig adweithydd uwch (y genhedlaeth 3+) sy'n weithredol yn unrhyw le yn y byd. Cafodd y pedair uned ABWR sydd ar waith eu cwblhau o fewn yr amserlen a'r gost, a llwyddwyd i gwblhau'r diweddaraf mewn 37 mis. Mae technoleg ABWR eisoes wedi'i thrwyddedu yn Japan, Taiwan ac UDA.
- 11.9 Mae'r angen am niwclear yn parhau, ac mae'r gefnogaeth wleidyddol yn dal yn gryf. Amcangyfrifir y bydd oddeutu 12,000 o swyddi yn cael eu creu yn ystod y broses adeiladu. Ar 30 Hydref, soniodd Hitachi eu bod yn bwriadu defnyddio dulliau adeiladu modiwlwr, gan obeithio adeiladu ffatri debyg i'r un a geir yn Japan ym Mhrydain.
- 11.10 Roedd yn gobeithio y byddai'r sgiliau yn eu lle, a dywedodd y byddent yn cydweithio er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau posib.
- 11.11 Mynegodd y Cadeirydd bod y datblygiadau hyn yn golygu dilyniant yn y grefft, ac oni bai am ddilyniant byddai'n gyfnod anodd iawn i ynni adnewyddadwy. O ran pobl ifanc, roedd yn gobeithio y byddai'r awdurdodau addysg yn eu cyfeirio at y diwydiant. Diolchodd i Richard, gan obeithio y byddai'n dod i roi adroddiad arall yn fuan.

12. Cyflwyniad ar gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox – Mark Chevis

- 12.1 Rhoddodd Mr Mark Chevis y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox.



- 12.2 Hysbysodd y cyfarfod fod 273 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno drwy'r porth cyflwyno ceisiadau ar y we hyd yn hyn, ac roedd y ceisiadau hynny'n werth bron i £5 miliwn.
 - 12.3 Roedd 43 o'r ceisiadau wedi'u priodoli i Traws, ac roedd gwerth y ceisiadau hynny yn £657,112.
 - 12.4 Roedd 22 o'r ceisiadau a briodolwyd i Traws wedi cael eu cymeradwyo a'u dyfarnu. Roedd y rhain yn amrywio o geisiadau gan grwpiau cymunedol i brosiectau busnes, er enghraifft, menter gymdeithasol 'leir y Gorlan' Ysgol y Gorlan.
 - 12.5 Prif ffactorau'r cynllun oedd lliniaru effaith datgomiynu.
 - 12.6 Mae cais gwerth £360,000 gan Goleg Meirion Dwyfor yn mynd drwy'r broses ar hyn o bryd, fel rhan o'u prosiect i adeiladu canolfan sgiliau. Bydd penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud erbyn y cyfarfod nesaf.
 - 12.7 Eglurodd Mr Mark Chevis eu bod yn chwilio am brosiectau trawsnewidiol, ac anogodd pawb i ledaenu'r neges i bobl a allai elwa o'r cynllun.
13. Atgyweiriadau 2012 i Bont Droed Trawsfynydd – Andy McAteer
- 13.1 Hysbysodd Mr Andy McAteer y cyfarfod fod gwaith wedi cael ei wneud ar y bont droed i sicrhau diogelwch. Roedd hyn yn cynnwys gwaith haearn, gwaith peintio a gwaith ar y deciau. Dywedodd eu bod yn edrych ar y bont bob wythnos i wneud yn siŵr ei bod yn ddiogel.
 - 13.2 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Andy McAteer ar ran ardal Trawsfynydd, gan ddweud bod y bont yn cael ei defnyddio a bod y llwybr yn ddymunol. Diolchodd eto am y gofal gan obeithio y byddai hynny'n parhau.
 - 13.3 Cwestiynau
 - a. Diolchodd y Cyng Tom Ellis i Mr Andy McAteer hefyd, gan ddweud bod y bont yn cael ei defnyddio gryn dipyn. Serch hynny, soniodd am y tir sy'n arwain i lawr at y bont, a holodd a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i roi arwyneb caled arno. Eglurodd Mr Andy McAteer mai dim ond am y bont yr oedden nhw'n gyfrifol ac mai'r cyngor sy'n gyfrifol am y darn hwnnw o dir.
 - b. Holodd y Cyng Meredydd Williams ai cwmni lleol oedd wedi gwneud y gwaith. Atebodd Mr Andy McAteer mai cwmni lleol oedd wedi gwneud y gwaith cyntaf ar y deciau, ond fod y gwaith haearn diweddaraf wedi cael ei wneud gan eraill. Mynegodd y Cadeirydd fod hyn yn achosi problem, ac awgrymodd efallai y byddai modd sgwrsio â'r Parc ac Adran Llwybrau'r Cyngor Sir i weld a oes modd gwneud rhywbeth gan nad yw'n dderbyniol fel y mae.
14. Prosiect Torri Coed Pibell Pwysedd Isel Maentwrog – Andy McAteer
- 14.1 Dywedodd Mr Andy McAteer fod 625 o goed wedi'u plannu o amgylch y bibell pwysedd isel sy'n dod â dŵr o'r llyn i Faentwrog. Nid oedd pobl wedi meddwl y byddai'r coed yn tyfu mor uchel pan oedden nhw'n cael eu plannu, ond erbyn hyn maent 80 a 100 troedfedd o uchder a phe bai coeden yn disgyn fe allai beri niwed i'r bibell.
 - 14.2 Roedd y prosiect wedi cychwyn a'r paratodau yn mynd rhagddynt. O ran cludo'r coed, nid oeddent yn dymuno mynd â'r coed drwy Faentwrog a Gellilydan, ond yn hytrach roeddent am fynd heibio'r argae ac i fyny at yr A470 ac yn syth i'r melinau neu i'r lle maent wedi'u bwriadu.
 - 14.3 Esboniodd ei fod yn awyddus i roi gwybod i bobl bod y prosiect yn mynd yn ei flaen, a'i bod yn bosib y byddai pobl yn gweld ambell lori a thractor ac ati. Roedd Clwb Pysgota Prysor wedi cael eu hysbysu hefyd.



14.4 Cwestiynau

- a. Holodd Mr E Jones beth am y bobl eraill sy'n defnyddio'r llwybr, ac eithrio'r rheini sy'n gysylltiedig â'r orsaf.
Dywedodd Mr Andy McAteer mai'r bwriad oedd rhybuddio pobl er mwyn gwneud yn siŵr nad oeddent yn rhoi eu hunain mewn perygl. Roeddent yn gofyn i bobl fod yn ofalus, ac nad oeddent yn dymuno cau'r lôn. Ategodd fod gan bobl gyfrifoldeb i beidio â rhoi eu hunain mewn perygl. Dywedodd hefyd nad dyma'r amser gorau i wneud y gwaith o safbwynt tywydd, ond fod manteision i wneud y gwaith ar yr adeg hon o'r flwyddyn hefyd. Roeddent wedi cael trwydded i dorri coed tan fis Mawrth 2013.
- b. Holodd y Cyng John Richards a fyddai arwyddion diogelwch yn cael eu gosod.
Dywedodd Mr Andy McAteer fod arwyddion sy'n dangos gwybodaeth allweddol, ee manylion pobl sy'n gweithio ar y safle. Mynegodd mai dyna pam yr oedd yn awyddus i ddweud wrth y cyfarfod, er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o'r gwaith.
- c. Holodd y Cyng Meredydd Williams a fyddai unrhyw beth arall yn cael ei blannu yn lle'r coed.
Atebodd Mr Andy McAteer y byddai coed mwy cynhenid sy'n naturiol i'r ardal yn cael eu plannu.
Mynegodd y Cadeirydd ei fod wedi sôn am hyn ychydig fisoedd yn ôl, gan ddweud ei bod yn hollbwysig gwarchod coed ond nad yw pobl yn ystyried bod coed yn tyfu, a phan maent yn tyfu, maent yn tyfu yn erbyn adeiladau ac wrth eu hymyl, gan achosi llanast mawr a chostau difrifol.

15. Unrhyw fater arall

- 15.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Nia Swann Bowden i rannu gwybodaeth am y Parth Menter.
- 15.2 Dywedodd Nia Swann Bowden ei bod wedi dod i'r cyfarfod i ddiweddarau pawb, yn dilyn y cyflwyniad a roddodd Mr Dylan Griffiths ar y Parth Menter yn y cyfarfod diwethaf.
- 15.3 Eglurodd fod y safle yn mynd i gael sylw penodol, ac mai'r bwriad yw creu cyfleoedd a swyddi. Mae pob Parth yn cael ei lywio gan Fwrdd, a Mr John Idris Jones yw'r Cadeirydd yn Eryri, gyda'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau yn yr ardal.
- 15.4 Roedd y bwrdd wedi sylwi bod bylchau yn y wybodaeth am y safle. Y bwriad oedd llenwi'r bylchau, ac mae gwaith yn cael ei gyflawni er mwyn gwneud hynny.
- 15.5 Dywedodd eu bod wedi dechrau cael ymholiadau. Roedd canolfan ddata ryngwladol wedi dangos diddordeb mawr, gyda'r posibilrwydd o greu hyd at 60 o swyddi, ac roeddent yn cael trafodaethau ar hyn o bryd.

15.6 Cwestiynau

- a. Holodd y Cyng Meredydd Williams a oedd cynllun o'r lle sydd ar gael i'w ddatblygu.
Atebodd Nia Swann Bowden mai dyna'n union roedden nhw'n chwilio amdano.
Roedd y Cyng Meredydd Williams yn teimlo y dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael ar y dechrau un, gan fynegi ei siom unwaith eto nad oedd ardal Blaenau wedi'i chynnwys.
Eglurodd Nia Swann Bowden eu bod wrthi'n comisiynu'r gwaith hwnnw ac yn gobeithio y byddai'n cael ei gwblhau yn y 6 mis nesaf. Pwysleisiodd fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i hyn ond y byddai wedi bod yn ddelfrydol pe bai cynllun wedi bod ar gael o'r dechrau.
- b. Dywedodd Dr Iolo ap Gwynn ei fod, mewn cyfarfodydd blaenorol, wedi sôn am gasglu gwybodaeth er mwyn gallu asesu'r angen, ond pwysleisiodd nad oeddem eto'n gwybod o lle mae pobl yn teithio i'r ardal.



Eglurodd Nia Swann Bowden y byddai hyn i gyd yn cael ei fwydo i mewn.

Roedd y Cyng Meredydd Williams yn teimlo ei bod yn hollbwysig bod y contractwyr a'r isgcontractwyr yn gwybod beth sy'n digwydd.

- c. Soniodd y Cyng Tom Ellis am faint y safle – gan ei fod yn safle mor fawr, mae'n anodd deall pam nad oedd modd dod i gytundeb ar y safle i ddechrau.

Pwysleisiodd y Cadeirydd mai dyna'n union oedd yn cael ei drin a'i drafod, a dyna beth mae Nia yn ei wneud ar hyn o bryd.

- 15.7 Cododd y Cadeirydd sylw am nifer y cyfarfodydd. Roedd ambell un yn teimlo bod y cyfarfodydd yn brin. Gofynnodd i Mark Chevis a oedd ganddo ef unrhyw sylwadau. Roedd Mark Chevis yn teimlo mai penderfyniad y Grŵp Rhanddeiliaid Safle oedd hwn ac eglurodd fod cyfarfodydd yn amrywio. Fodd bynnag, dywedodd y byddai Magnox yn fwy na bodlon hwyluso trydydd cyfarfod. Cynigiodd y Cyng Tom Ellis gynnal cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Gan fod nifer o aelodau yn mynychu'r grŵp yn wirfoddol ar ran y gymuned, roedd y Cyng Meredydd Williams yn teimlo bod dwywaith y flwyddyn yn briodol. Gan na wnaeth neb eilio'r cynnig i gynnal tri chyfarfod y flwyddyn, gofynnodd y Cadeirydd i bawb ddangos dwylo i ddangos bod pawb yn cytuno i bethau aros fel y maen nhw.
- 15.8 Dywedodd y Cyng Dafydd Watts fod yr ymweliad â'r safle wedi bod yn ddefnyddiol iawn er mwyn gweld beth sy'n digwydd.

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Mae cyfarfod Grŵp Rhanddeiliad y Safle, oedd i'w gynnal ar y 3ydd Mehefin, wedi ei ail-drefnu ar gyfer **Dydd Llun 10 Mehefin 2013**.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.